# Gweithgareddau Ysgrifennu

## Llythyr Personol

Yma ceir uned o waith ar ysgrifennu llythyr personol.  Mae yma sbardunau a thasgau ar dair lefel wahaniaethol yn ogystal â gridiau huanasesu i'r disgyblion.  Cofiwch fod yna gyflwyniad Pwerbwynt i gyd-fynd â'r gwaith.



<u>Gwefan ddefnyddiol:</u>
www.bbc.co.uk/cymru/tacteg/cymraeg

# CYMRAEG yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

## Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Ysgrifennu

## Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio

### Ysgrifennu

#### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwrpas
2. cysylltu brawddegau a chymalau yn ddealladwy ac yn drefnus; defnyddio cystrawennau amrywiol Cymraeg a pharagraffu'n effeithiol
3. defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol gan gynnwys:
   - atalnod
   - atalnod llawn
   - gofynnod
   - dyfynnod
   - ebychnod
   - collnod
   - acen grom
   - pwyntiau bwled
4. dewis a defnyddio geirfa briodol, datblygu iaith goeth, rywiog a'i defnyddio i greu effeithiau
5. meithrin cywirdeb trwy:
   - ddefnyddio ffurfiau berfol
   - negyddu brawddegau
   - defnyddio arddodiaid
   - treiglo
   - defnyddio cenedl enwau
   - gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg
   - gwahaniaethu rhwng 'i', 'u' ac 'y'
   - osgoi geiriau, ymadroddion a phatrymau Saesneg a Seisnig diangen
6. defnyddio ystod o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gywir; gwirio sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh
7. defnyddio geirfa a therminoleg briodol wrth ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill
8. drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen i:
   - baratoi a chynllunio
   - drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith
   - prawf-ddarllen
   - paratoi copi terfynol
9. cyflwyno'u gwaith yn briodol gan:
   - ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy, yn unol â chonfensiwn
   - defnyddio dulliau cyflwyno a gosod pwrpasol, gan gynnwys TGCh.

#### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
   - difyrru
   - cyflwyno gwybodaeth
   - mynegi barn
   - cyfleu teimladau a syniadau
2. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygus, e.e. *yr hunan, cyd-ddisgyblion, disgyblion iau, athrawon, teulu a ffrindiau*
3. ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. *stori, cerdd, sgript, taflen, poster, hysbyseb, adroddiad, dyddiadur, nodiadau, testun electronig, portread, cyfarwyddiadau, holiadur, adolygiad, erthygl, araith*
4. ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. *stori, cerdd, eu diddordebau, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt, rhaglen deledu, cerflun.*



Dolbedw,
Yr Hen Ffordd,
Llandysul,
Ceredigion,
SA43 3AB
24ain o Chwefror

Annwyl Siwan,

Sut wyt ti?  Sut mae pethau'n mynd? Gobeithio dy fod yn iawn ac yn setlo i mewn i'r ysgol newydd.  Sut le yw Abertawe? Ydy dy dad yn hapus yn ei waith?

Mae popeth yr un peth yma.  Siôn a Rhys yn niwsans yn ôl yr arfer ac ysgol heb newid rhyw lawer chwaith, oni bai am y ffaith nad wyt ti yma. Rydyn ni wedi dechrau ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Gylch yn barod. Mae Mrs Jones wrth ei bodd yn ein dysgu i ganu.  Wyt ti'n mynd i gystadlu eleni?  Mae gennym ni barti llefaru a pharti deulais.

Mae hi'n brysur gyda ni ar y fferm hefyd. Rydyn ni yng nghanol yr wyna. Mae gen i un oen swci'n barod a'i henw yw Dot.  Mae ganddi wlân gwyn â smotyn o ddu ar ei bron.  Mae hi'n bert ofnadwy.  Rydw i'n hoffi'r adeg yma o'r flwyddyn oni bai am orfod codi'n gynnar.  Mae'n rhaid i Dot fach gael llaeth cyn i mi fynd i'r ysgol.

Mae Sara'n dathlu ei phen-blwydd fory.  Rydyn ni'n mynd i'r pwll nofio ar ôl ysgol ac yna yn ôl i'w thŷ hi am swper.  Trueni dy fod di ddim yma i ddod gyda ni.  Wyt ti wedi gwneud rhywbeth gyda dy ffrindiau newydd eto?

Wel, gobeithio y gwnei di ateb fy llythyr yn fuan.

Hwyl am y tro,

Elan

xxx

**Nodwch y nodweddion yma.**



# Llythyr personol

Enghraifft o dasg









Gweithgareddau gyda'r nos / Evening concerts and events

| | Band A/B |
|---|---|
| Cyngerdd Agoriadol / Opening Concert<br>Pafiliwn, 30 Mai / 30 May, Pavilion | £15/£12 |
| Sioe Ieuenctid / Youth Theatre<br>28 Mai – 1 Mehefin, Theatr Felin-fach / 28 May – 1 June, Theatr Felin-fach | £12 |
| Sioe Gynradd / Junior Schools Show<br>1 – 2 Mehefin, Pafiliwn / 1 – 2 June, Pavilion | £12/£8 |
| Cystadleuaeth y Gân Actol / Action Song Competition<br>31 Mai, Pafiliwn (Cynradd)<br>31 May, Pavilion (Junior schools) | £8/£6 |
| Noson o Gystadlu / Evening of Competitions<br>Mynediad trwy docyn maes / Included in Eisteddfod day ticket<br>3 Mehefin, Pafiliwn / 3 June, Pavilion | — |
| Cystadleuaeth y Cerddorfeydd / Orchestra Competition<br>4 Mehefin, Pafiliwn / 4 June, Pavilion | £6 |
| Noson o Gystadlu / Evening of Competitions<br>Mynediad trwy docyn maes / Included in Eisteddfod day ticket<br>5 Mehefin, Pafiliwn / Pavilion, 5 June | — |
| Cymanfa Ganu<br>6 Mehefin, Capel Tabernacl, Aberaeron<br>6 June, Capel Tabernacl, Aberaeron | £6 |

Ysgrifennwch lythyr at eich ffrind yn sôn am eich diwrnod yn Eisteddfod yr Urdd.



**dy gyfeiriad** →

rhif / enw'r tŷ,
enw'r stryd,
enw'r pentref,
enw'r dref agosaf,
enw'r sir,
côd post

**dyddiad**

**Annwyl** **enw dy ffrind** ,

**Paragraff cyntaf**

- cyfle i ofyn cwestiynau i dy ffrind
- cyfle i ddweud dy neges

**Yr ail baragraff**

- dweud mwy am dy hanes

**Y trydydd paragraff**

- dweud mwy am dy hanes

**clo addas**

**enw cyntaf yn unig**

e.e. Annwyl Rhys, Lois, a.y.y.b.

Hia! Sut wyt ti?
Sut mae pethau?
Beth wyt ti wedi bod yn gwneud?
Rydw i / Dw i ………

Bues i / Gwelais i / Ta beth / Wel … / Dyna beth oedd ……

Wela i di cyn bo hir / Hwyl am y tro / Ta ta tan toc / Cofion gorau

Nia xx



**Annwyl** ________________ ,

e.e. Annwyl Rhys, Lois, a.y.y.b.

Hia! Sut wyt ti?
Sut mae pethau?
Beth wyt ti wedi bod yn gwneud?
Rydw i / Dw i .........

Bues i / Gwelais i / Ta beth / Wel … / Dyna beth oedd ……

Wela i di cyn bo hir / Hwyl am y tro / Ta ta tan toc / Cofion gorau

Nia xx



# Llythyr Personol

**Hunanasesu**

☺

| | |
|---|---|
| Ydy'r cyfeiriad yn y lle cywir? | |
| Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu'n iawn? | |
| Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl **o** e.e. o **F**ai? | |
| Oes dwy <n> yn Annwyl? | |
| Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir? | |

**Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:**




Esiampl allan o:
**Dyddiaduron a Llythyron**
(Sue Palmer
addasiad Cymraeg gan
Delyth Eynon)

e.e. Annwyl Rhys, Lois, a.y.y.b.

Hia! Sut wyt ti?
Sut mae pethau?
Beth wyt ti wedi bod yn gwneud?
Rydw i / Dw i .........

Bues i / Gwelais i / Ta beth /
Wel ... / Dyna beth oedd ......

Wela i di cyn bo hir / Hwyl am y tro / Ta ta tan toc / Cofion gorau

Nia xx



Annwyl ____________________ ,



# Llythyr Personol

**Hunanasesu**

| | |
|---|---|
| Ydy'r cyfeiriad yn y lle cywir? | |
| Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu'n iawn? | |
| Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl **o** e.e. o **F**ai? | |
| Oes dwy <n> yn Annwyl? | |
| Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gyflwyno mewn paragraffau? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir? | |

**Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:**



# Llythyr Personol




Esiampl allan o:
**Dyddiaduron a Llythyron**
(Sue Palmer
addasiad Cymraeg gan
Delyth Eynon)

**Mewn llythyr personol dylid anelu at ddefnyddio iaith mwy anffurfiol.**
**Gellir gwneud hyn drwy:**

- ddefnyddio'r person cyntaf, e.e. Rydw i / Dwi'n
- gyfeirio at yr ail berson—ti / chi (yn dibynnu ar bwy sy'n derbyn y llythyr)
- ddefnyddio iaith fywiog a byrlymus, e.e. berfau pwerus ac ansoddeiriau
- ddefnyddio cysyllteiriau anffurfiol, e.e. wedyn / ond / ta waeth a.y.y.b.
- tôn sgyrsiol, e.e. Shw' mae? / mae'n / 'fory / cer mla'n / 'sdim / 'dw i ddim / wel a.y.y.b.



Hunanasesu

# Llythyr Personol

| | |
|---|---|
| Ydy'r cyfeiriad yn y lle cywir? | |
| Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu'n iawn? | |
| Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl **o** e.e. o **F**ai? | |
| Oes dwy <n> yn A**nn**wyl? | |
| Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gyflwyno mewn paragraffau? | |
| Oes defnydd o gysyllteiriau yma? | |
| Oes defnydd o iaith sgyrsiol ei naws yma? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir? | |

**Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn :**



# Llythyr personol







bluestone





Ysgrifennwch lythyr at eich ffrind yn sôn am eich gwyliau ym Mharc Gwyliau Bluestone yn Sir Benfro.



cyfeiriad y Parc → enw'r Parc,
enw'r pentref,
enw'r dref agosaf,
enw'r sir,
côd post

dyddiad

Annwyl enw dy ffrind ,

**Paragraff cyntaf**

- cyfle i ofyn cwestiynau i dy ffrind
- cyfle i ddweud dy neges

**Yr ail baragraff**

- dweud mwy am dy hanes
- beth wyt ti a dy ffrindiau wedi bod yn gwneud?

**Y trydydd paragraff**

- oes rhywbeth cyffrous wedi digwydd?

**clo addas**

**enw cyntaf yn unig**

e.e. Annwyl Rhys, Lois, a.y.y.b.

Hia! Sut wyt ti?
Sut mae pethau?
Beth wyt ti wedi bod yn gwneud?
Rydw i / Dw i ………

Bues i / Gwelais i / Ta beth / Wel … / Dyna beth oedd …… / Fyddet ti ddim yn credu hyn, ond …

Wela i di cyn bo hir / Hwyl am y tro / Ta ta tan toc / Cofion gorau

Nia xx



**Annwyl** ______________________ ,

e.e. Annwyl Rhys, Lois, a.y.y.b.

Hia! Sut wyt ti?
Sut mae pethau?
Beth wyt ti wedi bod yn gwneud?
Rydw i / Dw i ………

Bues i / Gwelais i / Ta beth / Wel … / Dyna beth oedd …… / Fyddet ti ddim yn credu hyn, ond …

Wela i di cyn bo hir / Hwyl am y tro / Ta ta tan toc / Cofion gorau

Nia xx



# Llythyr Personol

**Hunanasesu** ☺

| | |
|---|---|
| Ydy'r cyfeiriad yn y lle cywir? | |
| Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu'n iawn? | |
| Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl **o** e.e. o **F**ai? | |
| Oes dwy <n> yn **Annwyl**? | |
| Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir? | |

**Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:**



# Llythyr Personol

Esiampl allan o:
**Dyddiaduron a Llythyron**
(Sue Palmer
addasiad Cymraeg gan
Delyth Eynon)

Eich cyfeiriad chi

Dyddiad heddiw

Annwyl………,

Paragraff agoriadol

Paragraffau ychwanegol

Gadewch linell rhwng y paragraffau. Gallwch adael bwlch ar ddechrau llinell gyntaf pob paragraff os dymunwch.

Llinell i gloi

Eich llofnod neu eich enw cyntaf

e.e. Hwyl! Cofion cynnes Wela i di cyn bo hir

e.e. Annwyl Rhys, Lois, a.y.y.b.

Hia! Sut wyt ti?
Sut mae pethau?
Beth wyt ti wedi bod yn gwneud?
Rydw i / Dw i ………

Bues i / Gwelais i / Ta beth /
Wel … / Dyna beth oedd ……

Wela i di cyn bo hir / Hwyl am y tro / Ta ta tan toc / Cofion gorau

Nia xx



**Annwyl** ____________________ ,



Hunanasesu

☺

☺

# Llythyr Personol

| | |
|---|---|
| Ydy'r cyfeiriad yn y lle cywir? | |
| Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu'n iawn? | |
| Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl **o** e.e. o **F**ai? | |
| Oes dwy <n> yn A**nn**wyl? | |
| Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gyflwyno mewn paragraffau? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir? | |

**Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:**



# Llythyr Personol




Esiampl allan o:
**Dyddiaduron a Llythyron**
(Sue Palmer
addasiad Cymraeg gan
Delyth Eynon)

**Mewn llythyr personol dylid anelu at ddefnyddio iaith mwy anffurfiol.**
**Gellir gwneud hyn drwy:**

- ddefnyddio'r person cyntaf, e.e. Rydw i / Dwi'n
- gyfeirio at yr ail berson—ti / chi (yn dibynnu ar bwy sy'n derbyn y llythyr)
- ddefnyddio iaith fywiog a byrlymus, e.e. berfau pwerus ac ansoddeiriau
- ddefnyddio cysyllteiriau anffurfiol, e.e. wedyn / ond / ta waeth a.y.y.b
- tôn sgyrsiol, e.e. Shw' mae? / mae'n / 'fory / cer mla'n / 'sdim / 'dw i ddim / wel a.y.y.b.



Hunanasesu

# Llythyr Personol

| | |
|---|---|
| Ydy'r cyfeiriad yn y lle cywir? | |
| Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu'n iawn? | |
| Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl **o** e.e. o **F**ai? | |
| Oes dwy <n> yn A**nn**wyl? | |
| Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gyflwyno mewn paragraffau? | |
| Oes defnydd o gysyllteiriau yma? | |
| Oes defnydd o iaith sgyrsiol ei naws yma? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir? | |

**Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:**

Enghraifft o dasg



# Llythyr personol













Ysgrifennwch lythyr at eich Mam-gu i ddiolch am eich anrheg pen-blwydd.

Cofiwch sôn am:

- yr hyn fuoch chi'n gwneud;
- bwy aeth gyda chi;
- eich anrhegion pen-blwydd.



**dy gyfeiriad** →

rhif / enw'r tŷ,
enw'r stryd,
enw'r pentref,
enw'r dref agosaf,
enw'r sir,
côd post

**dyddiad**

**Annwyl** [ ] ,

**Paragraff cyntaf**

- cyfle i ofyn cwestiynau i dy fam-gu
- cyfle i ddweud dy neges

**Yr ail baragraff**

- dweud mwy am hanes dy ben-blwydd: Ble fuest ti? Pwy aeth? Beth wnaethoch chi?

**Y trydydd paragraff**

- dweud mwy am hanes dy ben-blwydd: sôn am dy anrhegion a.y.y.b.

**clo addas**

**enw cyntaf yn unig**

e.e. Annwyl Mam-gu,

Sut ydych chi?
Gobeithio eich bod chi'n ...
Rydw i'n ysgrifennu atoch i ...

Bues i / Gwelais i / Ta beth / Wel ... / Dyna beth oedd ...... Cefais i .../ Aethon ni ... / Daeth ...

Gobeithiaf eich gweld cyn bo hir / Hwyl am y tro / Cofion gorau

Nia xx



**Annwyl** ____________________ ,

e.e. Annwyl Mam-gu,

Sut ydych chi?
Gobeithio eich bod chi'n ...
Rydw i'n ysgrifennu atoch i ...

Bues i / Gwelais i / Ta beth / Wel ... / Dyna beth oedd ...... Cefais i .../ Aethon ni ... / Daeth ...

Gobeithiaf eich gweld cyn bo hir / Hwyl am y tro / Cofion gorau

Nia xx



**Hunanasesu**

☺

# Llythyr Personol

| | |
|---|---|
| Ydy'r cyfeiriad yn y lle cywir? | |
| Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu'n iawn? | |
| Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl **o** e.e. o **F**ai? | |
| Oes dwy <n> yn **Annwyl**? | |
| Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd? | |
| Ydy'r math o iaith a ddefnyddir yn addas gan ystyried pwy sy'n derbyn y llythyr? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir? | |

**Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:**



# Llythyr Personol

Esiampl allan o:
**Dyddiaduron a Llythyron**
(Sue Palmer
addasiad Cymraeg gan
Delyth Eynon)

Eich cyfeiriad chi

Dyddiad heddiw

Annwyl………,

e.e. Annwyl Mam-gu,

Paragraff agoriadol

Sut ydych chi?
Gobeithio eich bod chi'n …
Rydw i'n ysgrifennu atoch i …

Paragraffau ychwanegol

Bues i / Gwelais i / Ta beth /
Wel … / Dyna beth oedd ……
Cefais i …/ Aethon ni … / Daeth …

Gadewch linell rhwng y paragraffau. Gallwch adael bwlch ar ddechrau llinell gyntaf pob paragraff os dymunwch.

Llinell i gloi

Gobeithiaf eich gweld cyn bo hir /
Hwyl am y tro / Cofion gorau

e.e. Hwyl! Cofion cynnes Wela i di cyn bo hir

Eich llofnod neu eich enw cyntaf

Nia xx



Annwyl ______________________ ,



# Llythyr Personol

**Hunanasesu**

| | |
|---|---|
| Ydy'r cyfeiriad yn y lle cywir? | |
| Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu'n iawn? | |
| Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl **o** e.e. o **F**ai? | |
| Oes dwy <n> yn A**nn**wyl? | |
| Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gyflwyno mewn paragraffau? | |
| Ydy'r math o iaith a ddefnyddir yn addas gan ystyried pwy sy'n derbyn y llythyr? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir? | |

**Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:**



# Llythyr Personol




Esiampl allan o:
**Dyddiaduron a Llythyron**
(Sue Palmer
addasiad Cymraeg gan
Delyth Eynon)

**Mewn llythyr personol dylid anelu at ddefnyddio iaith mwy anffurfiol.**
**Gellir gwneud hyn drwy:**

- ddefnyddio'r person cyntaf, e.e. Rydw i
- gyfeirio at yr ail berson—ti / chi (yn dibynnu ar bwy sy'n derbyn y llythyr)
- ddefnyddio iaith fywiog a byrlymus, e.e. berfau pwerus ac ansoddeiriau
- ddefnyddio cysyllteiriau anffurfiol, e.e. wedyn / ond / ta waeth a.y.y.b.
- tôn sgyrsiol, e.e. Shw' mae? / mae'n / 'fory / cer mla'n / 'sdim / 'dw i ddim / wel a.y.y.b.



# Llythyr Personol

Hunanasesu

| | |
|---|---|
| Ydy'r cyfeiriad yn y lle cywir? | |
| Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu'n iawn? | |
| Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl **o** e.e. o **F**ai? | |
| Oes dwy <n> yn A**nn**wyl? | |
| Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gyflwyno mewn paragraffau? | |
| Oes defnydd o gysyllteiriau yma? | |
| Oes defnydd o iaith sgyrsiol ei naws yma? | |
| Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir? | |

**Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn :**



# Llythyr personol
















Dewiswch lyfr wnaethoch chi fwynhau ei ddarllen.
Ysgrifennwch lythyr at yr awdur yn:

- sôn am y plot ac unrhyw ddigwyddiadau wnaeth argraff arnoch chi;
- sôn am y cymeriadau;
- gofyn cwestiynau.



Enghraifft o dasg

# Llythyr personol









**Gweithgareddau gyda'r nos / Evening concerts and events**

| | Band A/B |
|---|---|
| **Cyngerdd Agoriadol / Opening Concert**<br>Pafiliwn, 30 Mai / 30 May, Pavilion | £15/£12 |
| **Sioe Ieuenctid / Youth Theatre**<br>28 Mai – 1 Mehefin, Theatr Felin-fach /<br>28 May – 1 June, Theatr Felin-fach | £12 |
| **Sioe Gynradd / Junior Schools Show**<br>1 – 2 Mehefin, Pafiliwn / 1 – 2 June, Pavilion | £12/£8 |
| **Cystadleuaeth y Gân Actol / Action Song Competition**<br>31 Mai, Pafiliwn (Cynradd)<br>31 May, Pavilion (Junior schools) | £8/£6 |
| **Noson o Gystadlu / Evening of Competitions**<br>Mynediad trwy docyn maes / Included in Eisteddfod day ticket<br>3 Mehefin, Pafiliwn / 3 June, Pavilion | — |
| **Cystadleuaeth y Cerddorfeydd / Orchestra Competition**<br>4 Mehefin, Pafiliwn / 4 June, Pavilion | £6 |
| **Noson o Gystadlu / Evening of Competitions**<br>Mynediad trwy docyn maes / Included in Eisteddfod day ticket<br>5 Mehefin, Pafiliwn / Pavilion, 5 June | — |
| **Cymanfa Ganu**<br>6 Mehefin, Capel Tabernacl, Aberaeron<br>6 June, Capel Tabernacl, Aberaeron | £6 |

Ysgrifennwch lythyr at eich ffrind yn ei wahodd i ddod gyda chi am ddiwrnod i Eisteddfod yr Urdd. Cofiwch gynnwys:

- drefniadau'r dydd, e.e. dydd, amser, a.y.y.b.
- yr hyn fyddech chi'n gwneud yno;
- gwybodaeth fydd yn ei berswadio i ddod gyda chi.